Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adroddiad ar ein cynllun i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru

## Y pethau wnaethon ni o 2020 i 2021



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2021**'.

**Chwefror 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 22**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242 733

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn........................................................4**

**Y celfyddydau yn 2020 a 2021...............................................................6**

**Y gwaith pwysig wnaethon ni o 2020 a 2021.........................................9**


**Enghraifft o waith rydyn ni wedi'i gefnogi ...........................................14**

**Y pethau ddwedson ni y buasen ni'n eu gwneud yn well..................15**

**Y pethau y byddwn ni'n dal ati i'w gwneud..........................................20**

**Geiriau anodd.........................................................................................22**

# Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn




Fe ysgrifennon ni gynllun yn 2020 i gael mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru.



Hawdd ei Ddeall

**Adroddiad ar ein cynllun i helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru**

Y pethau wnaethon ni o 2020 i 2021

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2021**'.

**Chwef or 2022**

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith wnaethon ni ar y cynllun yn 2020 a 2021.



Rydyn ni'n meddwl y dylai'r celfyddydau gael eu gwneud a'u mwynhau gan bobl o bob math o wahanol gefndiroedd.

Er enghraifft, pobl sy'n fyddar, yn anabl a phobl o **leiafrifoedd ethnig**.



Mae person o **leiafrif ethnig** yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o hil wahanol.




Mae arnon ni eisiau rhoi diwedd ar **hiliaeth**. Mae arnon ni eisiau cael mwy o bobl anabl a phobl o **leiafrifoedd ethnig** yn gweithio i'n tîm.




Mae **hiliaeth** yn driniaeth annheg neu gas o bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil arbennig.

# Y celfyddydau yn 2020 a 2021




Cafodd y coronafeirws effaith fawr ar yr holl waith yn y celfyddydau yn 2020 a 2021.




Doedd hi ddim yn bosibl i rai digwyddiadau celfyddyd gael eu cynnal.



Cafodd pobl anabl a phobl mwy tlawd eu heffeithio'n ddrwg gan y coronafeirws.




Daeth grŵp o artistiaid anabl at ei gilydd i ddechrau ymgyrch oedd yn cael ei alw'n '**We Shall Not Be Removed**'.




Roedden nhw'n poeni am eu hiechyd ac am gael eu **cadw ar wahân**.



> Mae **cadw ar wahân** yn meddwl cael eu cadw oddi wrth bobl. Trwy beidio â gweld llawer o bobl. Neu oherwydd nad ydych chi'n teimlo mewn cysylltiad â llawer o bobl.




Yn 2021 cychwynnodd ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys, a siaradai am y ffaith nad yw pobl dduon yn cael eu trin yn gyfartal.




Oherwydd y digwyddiadau byd-eang hyn, fe ddiweddaron ni ein cynllun ar gyfer gwneud y celfyddydau yn fwy cyfartal yng Nghymru.

## Ein nodau

Y pump nod yn ein cynllun yw:



- Gweithio â'r gymuned i ddysgu ganddyn nhw



- Helpu mwy o bobl **amrywiaethol** i weithio yn y celfyddydau.

> Mae **amrywiaethol** yn meddwl pobl o'r holl wahanol ddiwylliannau, sydd â gwahanol fedrau a galluoedd a ffyrdd o fyw.



- Gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio yn y celfyddydau yn cael eu talu'n dda.



- Helpu mwy o artistiaid a mudiadau **amrywiaethol** i gael nawdd.



- Helpu mwy o bobl **amrywiaethol** i gymryd rhan yn y celfyddydau.



Mae arnon ni eisiau canolbwyntio yn bennaf ar bobl sydd o **leiafrifoedd ethnig**, sy'n fyddar, yn anabl ac yn **niwroamrywiaethol**.



Mae **niwroamrywiaethol** yn label sy'n cael ei ddefnyddio i siarad am gyflyrau fel 'ADHD', Awtistiaeth, Dyslecsia a Dyspracsia. Efallai bod pobl **niwroamrywiaethol** yn meddwl ac yn dysgu'n wahanol ac yn gweld y byd yn wahanol i bobl eraill.

# Y gwaith pwysig wnaethon ni o 2020 a 2021



Fe siaradon ni ag artistiaid o lawer o wahanol gefndiroedd.



Fe ddysgon ni bod y ffordd rydyn ni'n gweithio yn ei gwneud hi'n anodd i rai pobl gymryd rhan yn y celfyddydau.




Fe ddefnyddion ni y pethau ddysgon ni i'n helpu i ysgrifennu ein pump nod.



Fe wnaethon ni barhau â'n **Rhaglen Camau Creadigol**. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi mudiadau sy'n cael eu rhedeg gan bobl o **leiafrifoedd ethnig** neu bobl anabl.

Fe roeson ni arian i'r mudiadau hyn a'u helpu:



- Cwmni Theatr Taking Flight
- Gentle Radical
- Race Council Cymru
- Laku Neg
- Fio
- G Expressions



Fe weithion ni gydag artistiaid o **leiafrifoedd ethnig**, artistiaid byddar ac artistiaid anabl i wneud y **Rhaglen Camau Creadigol** yn well i artistiaid hefyd.



Ymunodd aelod newydd o staff â'n tîm. Y person hwn yw'r **Asiant dros Newid**.



Ei enw yw Andrew Ogun. Mae wedi ein helpu i gyrraedd mwy o bobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig a hoffai weithio gyda ni.




Rydyn ni wedi dal ati â'n cynllun cerdyn **Hynt**. Erbyn hyn mae gan dros 18 mil o bobl gerdyn **Hynt**. Ac mae 41 o leoliadau yng Nghymru yn rhan o'r cynllun.




Mae'r lleoliadau hyn wedi ymrwymo i fod yn **hygyrch** i bawb.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn medru cael gafael ar bethau er mwyn eu defnyddio.



Fe redon ni bump sesiwn hyfforddi **Hynt**. Roedden nhw’n cael eu harwain gan bobl fyddar neu bobl anabl. Roedd y sesiynau hyn ar gyfer staff oedd yn gweithio mewn swyddfeydd tocynnau mewn lleoliadau celfyddyd.




Roedd yr hyfforddiant yn ymwneud â helpu lleoliadau i fod yn fwy **hygyrch** ar gyfer pobl ddall a phobl â **nam ar eu golwg**.



Mae pobl sydd a **nam ar eu golwg** yn bobl sydd â phroblemau â’u golwg.



Rydyn ni’n bwriadu gwneud i’r cerdyn **Hynt** weithio ar draws y DU i gyd.



Fe wnaethon ni barhau i rannu ein gwobrwyon **Unlimited**. Aeth y gwobrwyon hyn i’r artistiaid Cheryl Beer, Gareth Churchill a Steph Back.



Fe roeson ni ddwy wobr gyda'r **British Council**. Aeth y rhain i:

- Chris Tally Evans i weithio gydag artist o Frasil
- Gina Biggs i weithio gydag artist o Golombia.



Fe roeson ni ddwy wobr gyda **Paul Hamlyn**. Aeth y rhain i Nye Russel-Thompson a Paul Whittaker.



Fe wnaethon ni barhau â rhannau o'n **Rhaglen Llwybrau Creadigol**. Fe helpodd hyn saith mudiad yng Nghymru i roi lleoliadau gwaith blwyddyn o hyd i bobl o gefndiroedd tlawd.



Fe weithion ni gyda **BBC Cymru** i gefnogi prosiect cerddoriaeth newydd sy'n cael ei alw'n **Horizons**. Roedd y prosiect hwn yn gweithio gyda cherddorion o **leiafrifoedd ethnig**. A rhoi nawdd iddyn nhw.



Fe weithion ni gyda '**BBC Arts**', **BBC Cymru** a **Ffilm Cymru** ar ein prosiect **Ffolio**. Fe aeth yn dda. Fe gefnogodd artistiaid i wneud ffilmiau byr.



Cafodd y ffilmiau hyn eu dangos ar **BBC4** a **BBC Global**.



Fe wnaethon ni barhau i weithio gydag **Amgueddfa Cymru** ar ein prosiect sy'n helpu mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau.



Fe weithion ni gyda thri mudiad i ymchwilio a siarad â gwahanol gymunedau.

Y cymunedau oedd:



- **Re:cognition** – gweithio gyda chymuned yng nghefn gwlad.
- **Richie Turner Associates** – gweithio gyda'r gymuned byddar ac anabl.
- **WAARU (Wales Arts Anti Racist Union)** – gweithio gyda chymunedau **lleiafrifoedd ethnig** ac **amrywiaethol**.

# Enghraifft o waith rydyn ni wedi'i gefnogi




Mae **G Expressions** yn fudiad ieuenctid sy'n cael ei arwain gan bobl dduon. Fe roeson ni £35,000 i ddatblygu eu cwmni.



Mae'r tîm wedi dod o hyd i ffordd newydd o weithio ac mae wedi dod yn fwy hyderus. Fe wnaethon nhw hefyd rannu eu ffordd o weithio gyda ieuenctid yn arwain gyda thros 200 o bobl.




Fe ddechreuon nhw wasanaeth ar-lein newydd ar gyfer pobl ifainc.



Mae un person ifanc yn dweud: "Dod yn rhan o'r tîm yw'r peth gorau rydw i wedi'i wneud."

# Y pethau ddwedson ni y buasen ni'n eu gwneud yn well




Ein cynllun ar gyfer 2020 i 2021 oedd gwneud ein tîm staff yn fwy **amrywiaethol**. Mae'r **Asiant dros Newid**, Andrew Ogun, yn ein helpu i wneud hyn.



Mae bron pob un aelod o'n staff yn dal i fod yn Wyn Prydeinig. Ond rydyn ni wedi cael mwy o bobl **amrywiaethol** yn ymgeisio am swyddi gyda ni y flwyddyn hon.



Mae 6% o'n staff yn anabl. Mae hyn yn meddwl bod tri o bob 50 aelod o staff sydd gennym yn anabl.



Roedd 9% o bobl wnaeth ymgeisio am swydd gyda ni yn anabl. Mae hyn yn meddwl bod 9 o bob 100 o bobl wnaeth ymgeisio am swydd gyda ni yn anabl.



Fe weithion ni ar wneud tâl ac amodau gwaith gwell ar gyfer gweithwyr **annibynnol**.

Mae gwaith annibynnol yn meddwl bod y gweithiwr yn hunangyflogedig ac fel arfer yn gweithio ar ran llawer o wahanol fudiadau.



Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda **Chymru Greadigol** i wneud pethau'n well i bawb sy'n gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru.




Fe ddwedson ni y buasen ni'n gwneud ein **Rhaglen Lotri** yn fwy cyfartal i bawb.





Felly fe gychwynnon ni brosiect **Cysylltu a Ffynnu** a roddodd £4.8 miliwn mewn nawdd i brosiectau ble mae mudiadau, cymunedau ac artistiaid yn gweithio gyda'i gilydd.



Aeth y rhan fwyaf o'r nawdd hwn at brosiectau sy'n cefnogi artistiaid anabl neu o **leiafrifoedd ethnig** mewn ardaloedd tlawd yng Nghymru.




Oherwydd coronafeirws, ni wnaeth y mudiadau rydyn ni'n eu cefnogi gynnal llawer o ddigwyddiadau.



Ond aeth y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pobl fyddar neu anabl i fyny ychydig. Ac aeth y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig i fyny ychydig mwy.

## Nawdd y gwnaethon ni ei roi allan



Fe roeson ni nawdd argyfwng i fudiadau a gweithwyr **annibynnol** y mae eu gwaith wedi dod i ben oherwydd y coronafeirws.



Fe roeson ni lawer o nawdd i artistiaid. Roedd dros hanner yn fenywod. Cafodd dynion lawer o nawdd hefyd. Roedd y rhan fwyaf o artistiaid rhwng 26 a 49 mlwydd oed.

Roedd y rhan fwyaf o artistiaid a gafodd nawdd yn **wahanrywiol**. Roedd nifer fechan yn **ddeurywiol**, **hoyw** neu **lesbiaidd**.





Mae pobl sy'n **wahanrywiol** yn ffansïo neu'n caru rhywun o'r rhyw arall.

Mae pobl sy'n **ddeurywiol** yn ffansïo neu'n caru dynion a merched.

Mae pobl sy'n **hoyw** neu'n **lesbiaidd** yn ffansïo neu'n caru rhywun o'r un rhyw.



Roedd tua 8 allan o bob 100 o artistiaid a gafodd nawdd yn anabl.



Roedd y rhan fwyaf o artistiaid a gafodd nawdd yn wyn. Aeth ychydig o nawdd i bobl o gefndiroedd **lleiafrifoedd ethnig**.



Fe roeson ni arian i fudiadau hefyd. Aeth y rhan fwyaf i fudiadau sy'n cael eu harwain gan fenywod ac yn cael eu rhedeg ar gyfer menywod. Roedd rhai yn cael eu rhedeg ar gyfer pobl ifainc a dynion.




Gwnaeth mwy o bobl sydd wedi **ailbennu eu rhywedd gais** am nawdd y flwyddyn hon.

Mae **ailbennu rhywedd** yn digwydd pan fydd person yn cael llawdriniaeth, fel bod ei gorff yr un fath â'r rhyw y mae'n uniaethu ag ef.



Fe wnaethon ni roi **grantiau cyfalaf** allan hefyd. Mae hwn yn arian i helpu mudiadau i brynu offer neu wneud eu lleoliad yn well.



Roedd nifer fechan o fudiadau yn cael eu harwain gan bobl o gefndiroedd **amrywiaethol**.



Roedd y rhan fwyaf o fudiadau a gafodd y nawdd hwn ar gyfer pobl ifainc.

## Pwyllgor cydraddoldeb strategol



Y flwyddyn hon fe gychwynnon ni grŵp newydd sy'n cael ei alw'n **Bwyllgor Cydraddoldeb Strategol**. Maen nhw'n ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth a allwn i wneud y celfyddydau yn **hygyrch** i bawb.

# Y pethau y byddwn ni’n dal ati i’w gwneud



Yn 2020 a 2021 fe weithion ni gydag 11 o **gyrff cyhoeddus** i wneud ein cynllun cydraddoldeb.



Mae **cyrff cyhoeddus** yn fudiadau sy’n cael arian gan **Lywodraeth Cymru** i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.



Byddwn yn dal ati i weithio gyda’n gilydd i wneud pethau’n well ac yn fwy cyfartal.



Byddwn yn dal ati i weithio gyda **Chynghorau Celfyddyd** eraill i rannu syniadau â’n gilydd.

Rydyn ni’n siarad am gynllun cerdyn fel **Hynt** ar gyfer y DU gyfan.



Byddwn yn gwrando ar ein staff a'u syniadau ynghylch sut i wneud pethau'n fwy cyfartal.



Mae arnon ni eisiau gweithio gyda mudiadau ac artistiaid newydd hefyd fydd yn gallu ein helpu i wneud pethau'n well.




Mae arnon ni eisiau meddwl am ffyrdd y bydd pethau'n well yn y dyfodol. Mae hyn yn ein helpu i wneud cynlluniau i gyrraedd ein nodau.

# Geiriau Anodd

### Ailbennu rhywedd

Mae ailbennu rhywedd yn digwydd pan fydd person yn cael llawdriniaeth, fel bod ei gorff yr un fath â'r rhyw y mae'n uniaethu ag ef.

### Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl pobl o'r holl wahanol ddiwylliannau, sydd â gwahanol fedrau a galluoedd a ffyrdd o fyw.

### Cadw ar wahân

Mae cadw ar wahân yn meddwl cael eich cadw oddi wrth bobl. Trwy beidio â gweld llawer o bobl. Neu oherwydd nad ydych chi'n teimlo mewn cysylltiad â llawer o bobl.

### Cyrff Cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn fudiadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau ar gyfer pobl yng Nghymru.

### Deurywiol

Mae pobl sy'n ddeurywiol yn ffansïo neu'n caru dynion a merched.

### Gwahanrywol

Mae pobl sy'n wahanrywiol yn ffansïo neu'n caru rhywun o'r rhyw arall.

### Gweithwyr Annibynnol

Mae gwaith annibynnol yn meddwl bod y gweithiwr yn hunangyflogedig ac fel arfer yn gweithio ar ran llawer o wahanol fudiadau.

### Hiliaeth

Mae hiliaeth yn driniaeth annheg neu gas o bobl oherwydd eu bod yn perthyn i hil arbennig.

## Hoyw neu lesbiaidd

Mae pobl sy'n hoyw neu'n lesbiaidd yn ffansïo neu'n caru rhywun o'r un rhyw.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn medru cael gafael ar bethau er mwyn eu defnyddio.

## Lleiafrif ethnig

Mae person o leiafrif ethnig yn rhywun sy'n byw mewn lle ble mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o hil wahanol.

## Nam ar y Golwg

Mae pobl sydd a nam ar eu golwg yn bobl sydd â phroblemau â'u golwg.

## Niwroamrywiaethol

Mae niwroamrywiaethol yn label sy'n cael ei ddefnyddio i siarad am gyflyrau fel 'ADHD', Awtistiaeth, Dyslecsia a Dyspracsia. Efallai bod pobl niwroamrywiaethol yn meddwl ac yn dysgu'n wahanol ac yn gweld y byd yn wahanol i bobl eraill.